


# Gwirioneddol Eiconig

## Swffle Caws Caerffili Cymreig Traddodiadol PGI gyda Chennin Cymreig PGI a Wisgi Brag Sengl Cymreig PGI

*Crëwyd gan: Douglas Balish, Grove Narberth*

**Wedi'i weini â Wisgi Brag Sengl Cymreig Da Mhile PGI**

**Saws caws**

- 50g menyn
- 40g blawd plaen
- 125g Caws Caerffili Cymreig Traddodiadol PGI (Thelma's gan Caws Cenarth/Caws Caerffili Traddodiadol Cymreig gan Caws Teifi)
- 250g llaeth
- 5g Halen Môn

Toddwch y menyn yna ychwanegu'r blawd, a choginio'r gymysgedd nes ei bod yn sych a thrwchus. Ychwanegwch y llaeth yn raddol a dod â'r gymysgedd i'r berw. Ychwanegwch y caws a'r halen a choginio'r cyfan nes ei fod yn llyfn ac yn sgleiniog.

**Dresin mwstard**

- 10g mwstard grawn cyflawn
- 10g olew olewydd
- 5g cennin syfi wedi'u sleisio

Cymysgwch y cyfan gyda'i gilydd

**Cennin menyn**

- 100g Cennin Cymreig PGI
- 25g menyn
- 15g Wisgi Brag Sengl Cymreig Da Mhile PGI

Coginiwch y cennin yn dyner yn y menyn nes iddynt feddalu. Ar ôl iddyn nhw feddalu, ychwanegwch y wisgi a dod â'r cyfan i'r berw.

**Swffle caws** *(ar gyfer 6)*

- 45g Caws Caerffili Cymreig Traddodiadol PGI
- 45g caws cheddar Hafod
- 40g blawd plaen
- 40g menyn
- 200g llaeth
- 4 wy cyfan wedi'u gwahanu'n felynwy a gwynwy
- 10g cennin syfi
- Halen i flasu

Toddwch y menyn ac ychwanegu'r blawd. Coginiwch y gymysgedd nes ei bod yn llyfn ac yn sych. Ychwanegwch y llaeth yn raddol a dod â'r gymysgedd i'r berw. Ychwanegwch y Cheddar a chaws Caerffili. Coginiwch y gymysgedd nes ei bod yn llyfn ac yn sgleiniog. Tynnwch y sosban oddi ar y gwres ac ychwanegu'r melynwy. Irwch y ddysgl ramecin rydych chi am ei defnyddio a'i rhoi i'r naill ochr. Rhag-gynheswch y popty i 170°C. Curwch y gwynwy nes iddo ddechrau pegynnu a'i blygu i mewn i'r gymysgedd caws. Ar ôl cyfuno'r ddau, arllwyswch y gymysgedd i'r ddysgl ramecin y gwnaethoch ei hiro, a'i phobi am 12-15 munud. Gellir troi'r rhain allan a'u pobi eto neu eu gweini ar unwaith.

---

**I'W GWEINI** Rhowch ychydig o'r saws caws yng ngwaelod powlen. Rhowch y cennin menyn ar ben y saws. Ychwanegwch ddwy lwyaid o'r dresin mwstard. A rhoi'r swffle ar ben y cyfan.

GEOGRAPHIC ORIGIN UK PROTECTED

DESIGNATED ORIGIN UK PROTECTED